**Y Grŵp Strategol Cynghori ar Ganiatadau**

**Yr Is-Grŵp Gwyddoniaeth a Thystiolaeth**

**10 Rhagfyr 2020**

**Yn bresennol**

Cadeirydd – **Jim McKie** (Eurona), **Morgan Johnson** (LlC – Trwyddedu Morol), **John Hamer** (LlC – Cynllunio Morol), **Rebecca Rees** (LlC – Cynllunio Morol), **Chris Jenkins** (LlC – Gwyddoniaeth), **James Moon** & **Alexander Scorey** (CNC), **Jess Hooper** (Ynni Morol Cymru), **Aly McCluskie** (RSPB), **Tania Davy** (Yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt), **Joe Kidd** (Catapult), **Jennifer Fox** (ORJIP-OE)

1. Cyfarfu'r grŵp a chymeradwyodd y Cylch Gorchwyl a chytunodd i gyfarfod bob deufis. Bydd cyfnod cychwynnol y Grŵp yn para blwyddyn, yn amodol ar adolygiad.

2. Trafododd aelodau'r grŵp Gynllun Gwaith drafft, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion ecolegol. Hefyd, mae materion sy'n ymwneud â iechyd pobl a defnyddwyr eraill y môr yn ystyriaeth ar gyfer trwyddedu morol a byddant yn cael eu hystyried gan y CSAG.

3. Cytunwyd mai un o brif amcanion y Grŵp fydd cyhoeddi cyfres o Nodiadau Gwybodaeth yn amlinellu'r ddealltwriaeth gyffredin o gyflwr yr anghenion gwyddoniaeth a thystiolaeth sydd ar gael o ran defnyddio dyfeisiau ynni tonnau ac ynni llif llanw yng Nghymru ar raddfa sengl a bach. Bydd y Nodiadau Gwybodaeth hefyd yn tynnu sylw at y ffordd ymlaen o ran mynd i'r afael â bylchau critigol mewn tystiolaeth. Yr uchelgais yw i'r Nodiadau Gwybodaeth, ar ôl ystyried a thrafod yn ofalus, symud tuag at nodi effeithiau risg isel a’u dileu yn ddiogel o ystyriaeth bellach. Felly, bydd y Nodiadau Gwybodaeth yn hwyluso ceisiadau cadarn am drwyddedau morol sy'n gymesur ac yn canolbwyntio ar asesu'r effeithiau sylweddol posibl allweddol a'r rhyngweithio posibl rhwng bywyd gwyllt morol a dyfeisiau ynni adnewyddadwy morol.

4. Roedd trafodaethau ar y Cynllun Gwaith hefyd yn cynnwys y potensial ar gyfer dull strategol o rannu a monitro data y cytunodd y grŵp i'w ystyried ymhellach.

5. Croesawyd ychwanegu academyddion a chynrychiolaeth o'r Ganolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol mewn cyfarfodydd Grŵp yn y dyfodol.

6. Cytunwyd y bydd Cynllun Gwaith y Grŵp yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

Cyfarfod nesaf: 2 Chwefror 2021